# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Dechrau Disglair**

**Dyffryn Y Glowyr**
**Heol Bethel**
**Cwm-twrch Isaf**
**Abertawe**
**SA9 2PT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**29 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd Meithrinfa Dechrau Disglair ei chofrestru ym mis Ionawr 2013 i ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 24 o blant rhwng dwy a thair blwydd oed. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ystafell ddosbarth annibynnol yn Ysgol Dyffryn y Glowyr, Cwm-twrch Isaf. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gofal dydd llawn o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:00am a 3:30pm yn ystod y tymor. Y person cofrestredig yw Emma Rofe, y pennaeth yn yr ysgol a'r personau â chyfrifoldeb yw Leanne Griffiths a Kelly Davies. Mae'r feithrinfa yn cynnig lleoedd dechrau'n deg. Cymraeg yw prif iaith y gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn mwynhau ystod eang o weithgareddau chwarae diddorol dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn chwarae'n hyderus ac yn frwdfrydig ac maent yn gyfforddus ac yn gartrefol yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio ar gyfer anghenion unigol y plant a'u diwallu. Mae'r plant yn cael budd o amgylchedd ysgogol iawn a diogel sydd â digon o adnoddau. Caiff y gwasanaeth ei arwain a'i reoli'n dda. Fodd bynnag, mae angen rhai gwelliannau yn y maes hwn.

### 2. Gwelliannau

Yn dilyn yr arolygiad blaenorol, mae'r darparwr wedi mynd i'r afael â'r sefyllfa staffio i sicrhau bod y person â chyfrifoldeb yn weithiwr ychwanegol.

Yn ystod yr arolygiad hwn, o ganlyniad i gael gwybod nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau, mae'r darparwr wedi cymryd camau ar fyrder i wneud y canlynol:

- diweddaru a darparu datganiad o ddiben newydd
- diwygio cofrestr y staff i gofnodi pryd mae’r staff cymorth yn cyflenwi egwyliau neu pryd mae'r staff yn cael seibiant o ofalu am y plant.

Mae'r darparwr hefyd wedi darparu copi o dystysgrif Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi anfon copi o'r adroddiad ar ansawdd y gofal.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion o dan y themâu gofal a datblygiad ac arwain a rheoli a nodir ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn; maent yn ymgartrefu'n gyflym ac yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau. Maent yn mwynhau eu profiadau chwarae yn fawr ac mae ganddynt ddewis da iawn o weithgareddau diddorol sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo eu datblygiad. Mae ganddynt sgiliau hunangymorth da ac maent yn ystyriol o'i gilydd. Mae'r plant yn profi cydberthnasau cynnes a gofalgar.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gall y plant fynegi eu barn a'u hanghenion, ac mae'r staff yn gwrando arnynt.

Roedd gan y plant lais da ac roedd staff y gwasanaeth yn gwrando arnynt yn dda. Gwnaethant symud o un ardal chwarae i'r llall yn hyderus, a mynegi eu barn yn eithaf clir. Gwnaethant ofyn am ail blatiaid o fyrbrydau a diodydd a gwnaethant helpu eu hunain i'r poteli diod eu hunain pan roedd angen. Gwelsom y plant yn dewis sedd i'w hunain wrth y bwrdd i gael byrbrydau a dewis yr hyn roeddent am ei yfed. Gofynnodd y plant am adnoddau chwarae neu gwnaethant helpu eu hunain iddynt yn ddirwystr, gan edrych mewn blychau, gan fod y rhain wedi'u storio ar lefel isel. Roedd y plant yn dewis ble i chwarae ac roeddent yn cael cyfleoedd da iawn i chwarae'n rhydd dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y staff yn gadael y drws ar agor er mwyn rhoi dewis rhydd iddynt. Roedd ganddynt gymysgedd da o gyfleoedd chwarae rhydd a thasgau â ffocws, megis adeiladu eitemau gyda briciau 'stickle', chwarae rôl gyda'r doliau neu wisgo i fyny a pha ganeuon neu lyfrau i'w dewis yn ystod amser cylch ac amser stori. Gwelsom fod y plant yn dewis chwarae ar eu pen eu hunain yn y guddfan neu fel rhan o grŵp yn y pwll tywod. Roedd y plant yn dewis p'un a oeddent am fynd i gysgu ai peidio.

Mae gan y plant lais da yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn gyfarwydd â'u hamgylchedd a threfnau'r gwasanaeth sy'n eu gwneud yn hapus ac yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd a pherthyn iddynt.

Gwelsom fod y plant yn cyrraedd y gwasanaeth yn hapus, gan gynnwys y plant mwyaf newydd, ac yn mynd at y staff neu eu dewis o ardal chwarae. Roedd yno awyrgylch hamddenol iawn a gwelsom y plant yn mynd at y staff yn gyfforddus i gael cymorth a sicrwydd. Gwelsom blentyn hŷn yn gofyn am gael ymweld â'r lleoliad i roi coflaid i'w berthynas iau. Gwelsom y plant yn cofleidio'r staff yn ystod amser cysgu ac yn eistedd ar eu colau yn ystod amser stori. Roedd y plant yn symud yn hyderus o gwmpas yr ardaloedd chwarae ac yn archwilio'r adnoddau a'r gweithgareddau a oedd ar gael. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn mwynhau mynychu yn fawr a gwelsom nad oedd rhai plant am adael ar adeg casglu'r plant.

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ddiogel ac yn hapus.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu pwysigrwydd rhannu a chymryd eu tro ac maent yn rheoli eu hymddygiad.

Roedd y plant yn chwarae'n hapus. Gwelsom fod y plant yn dysgu i gydweithredu ac roeddent yn ymateb yn dda iawn i ganmoliaeth. Er enghraifft, gwnaethant wenu pan roedd eu hymdrechion i fwrw pegiau i mewn i fyrddau corc yn llwyddiannus. Gwelsom y plant yn cymryd eu tro wrth y bwrdd toes chwarae ac yn yr awyr agored gyda'r bwcedi a'r rhawiau. Gwelsom fod y plant yn ymateb ac yn cydweithio pan ofynnwyd iddynt fod yn ofalus wrth gloddio yn y pwll tywod. Roedd y plant yn ystyriol o'i gilydd. Gwelsom fod y plant yn sicrhau bod eu ffrindiau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau neu'n eistedd gyda nhw nes eu bod yn barod i chwarae eto. Clywsom blentyn yn atgoffa aelod o'r staff i wisgo ei got cyn mynd allan i'r awyr agored. Ni welsom unrhyw anghytuno nac anghydfodau yn ystod ein hymweliad ac roedd y plant wedi ymlacio ac yn hapus. Roedd y plant yn cael stampiau neu sticeri am eu hymddygiad da a'u cyflawniadau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac â'r staff.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth o gyfleoedd chwarae sydd wedi'u cynllunio i gefnogi eu datblygiad.

Roedd y plant yn gwenu ac yn dangos cyffro ar eu hwynebau ac yn eu hiaith corff wrth iddynt chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y plant yn ymgysylltu ag amrywiaeth dda o weithgareddau ac roeddent yn mwynhau chwarae rhydd yn ogystal â gweithgareddau â ffocws. Roedd y rhain yn cynnwys y garej a'r ceir, y deinosoriaid, yr anifeiliaid a'r teipiadur. Gwelsom y plant yn gwneud paneidiau o de yn yr ardal chwarae rôl siop goffi ac yn chwarae gyda'u doliau hefyd. Gwelsom ddigonedd o wrthrychau ac adnoddau naturiol megis pren a mes a llestri cartref i'r plant chwarae gyda nhw. Roeddent yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored yn fawr. Gwnaethant chwarae yn y pwll tywod, adeiladu cestyll tywod, rhedeg ar ôl swigod, cicio peli, dringo drwy dwneli a chloddio yn yr ardal adeiladu. Clywsom lawer o chwerthin pan roedd y plant yn chwarae yn y guddfan ac yn esgus eu bod yn gweld pry cop. Roedd y plant yn canolbwyntio am gyfnod addas o amser ar gyfer eu cam datblygu. Gwenodd y plant a nodio pan wnaethom ofyn iddynt a oeddent yn mwynhau dod i'r grŵp chwarae. Clywsom y plant yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus.

Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu yn fawr.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu a dod yn annibynnol.

Roedd amgylchedd chwarae ysgogol iawn ar gael i'r plant. Roedd teganau, cyfarpar ac adnoddau wedi'u trefnu fel y gallai'r plant helpu eu hunain ac roedd y trefniadau dyddiol a'r

gweithgareddau â ffocws yn cefnogi datblygiad y plant. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r plant yn hyderus i ddewis eu chwarae eu hunain a rhoi cynnig ar bethau newydd.  Gwelsom y plant yn dysgu sut i guro pegiau i mewn i fyrddau corc a dysgu bod angen iddynt wisgo sbectol diogelwch wrth wneud hynny.  Chwaraeodd rhai o'r plant yn yr hambyrddau gyda thywod, reis ac eitemau amrywiol, gan arbrofi ac archwilio, defnyddio llwyau i lenwi powlenni a'u harllwys allan eto.  Gwelsom y plant hefyd yn eistedd ac yn gwrando ar stori ac yn ateb cwestiynau am y stori.  Gwnaethom eu clywed yn cyfrif ac yn adnabod lliwiau. Roedd y plant yn datblygu eu sgiliau hunangymorth; cawsant eu hannog i olchi a sychu eu dwylo heb gymorth oedolion ac i ddefnyddio'r hancesi i sychu eu trwynau pan roedd angen. Gwisgodd y rhan fwyaf o'r plant eu cotiau yn annibynnol cyn mynd allan i chwarae a'u rhoi yn ôl ar eu pegiau pan wnaethant ddychwelyd i'r ystafell chwarae.  Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant wedi datblygu'n dda ers mynychu'r gwasanaeth, a gwnaeth y rhan fwyaf sylwadau am eu datblygiad lleferydd.

Mae'r plant yn dysgu ac yn datblygu'n dda ac maent yn dod yn fwy annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan y staff gymhelliant, maent yn gyson ac yn cefnogi datblygiad y plant yn dda. Yn gyffredinol, maent yn dda yn eu cadw'n ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn diwallu anghenion unigol y plant yn llwyddiannus ac yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau er mwyn galluogi'r plant i chwarae, dysgu a datblygu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff wedi cael hyfforddiant da ac maent yn gwybod eu cyfrifoldebau. Maent yn cadw'r plant yn ddiogel ar y cyfan ac yn hybu eu hiechyd cyffredinol yn ddigonol.

Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i ddiogelu. Roedd y staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon mewn perthynas â diogelu. Roedd y staff hefyd wedi cwblhau cwrs hyfforddiant ar-lein dyletswydd radicaleiddio a 'prevent'. Roedd y staff yn goruchwylio pob ardal yn dda ac yn cefnogi'r plant os oedd angen. Er enghraifft pan fu damwain fach, archwiliodd y staff y plentyn ar unwaith a dilyn gweithdrefn damweiniau'r lleoliad, gan gynnwys cwblhau cofnodion a chysylltu â'r rhieni. Gwelsom fod y staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid da, gwnaethant sychu'r byrddau, brwsio'r lloriau ac atgoffa'r plant i olchi eu dwylo cyn prydau ac ar ôl chwarae blêr. Yn ystod y sesiwn, tra bod y drws ar agor, gwelsom blentyn yn cysgu ar y llawr ar flanced cnu gyda chlustogau. Nid oedd blanced dros y plentyn. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt flancedi a gorchuddion clustogau. Fodd bynnag, ni welsom y rhain yn cael eu defnyddio yn ystod yr ymweliad. Darparodd y staff fyrbrydau iachus megis caws, grawnwin a chramwyth a gwnaethant gynnig diod o laeth neu ddŵr. Daeth y plant â bocs bwyd o gartref neu roedd y staff yn cynnig pryd wedi'i goginio'n ffres o'r ysgol. Roedd y staff yn gwisgo dillad amddiffynnol priodol i baratoi byrbrydau ac yn dilyn gweithdrefnau priodol i gwblhau tasgau newid cewynnau. Fodd bynnag, tra bod y staff yn cwblhau tasgau newid cewynnau yn yr ystafell newid, gwelsom un plentyn, tra'n aros i gael ei gewyn wedi'i newid, yn chwarae gyda theganau ar y toiled ac o'i gwmpas.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ar y cyfan.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn fodelau rôl da iawn; maent yn gweithredu mewn ffordd gyson ac yn ystyried lefel o ddealltwriaeth a cham datblygu'r plant wrth reoli rhyngweithio.

Roedd y staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda iawn. Gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r plant, yn sgwrsio â nhw yn barchus ac yn eu canmol bob amser am eu hymdrechion a'u cyflawniadau. Clywsom 'da iawn' a 'high five'. Gwnaethant wrando ar y plant neu wylio eu hwynebau a'u hiaith corff yn agos a rhoi digon o amser iddynt fynegi eu hunain neu orffen gweithgareddau neu fwyta eu byrbrydau. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn cerdded o amgylch yr ystafell gyda'i ben i lawr, a gofynnodd aelod o'r staff i'r plentyn a oedd yn iawn ar unwaith. Clywsom y staff yn canmol y plant hefyd am eu cwrteisi ac am helpu i dacluso.

Eisteddodd y staff ar lefel y plant ar y llawr neu wrth y byrddau a defnyddio iaith briodol i gyfathrebu â nhw.  Roedd hyn yn creu awyrgylch tyner a chadarnhaol iawn. Roedd ymddygiad y plant yn dda. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio dulliau tynnu sylw pan fod problemau ymddygiad yn codi.

Mae'r staff yn effeithiol wrth reoli rhyngweithio.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn gymwys ac wedi'u hyfforddi'n dda.  Maent yn darparu lefelau priodol o gymorth ac yn gwybod anghenion unigol y plant ac yn cynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu profiadau chwarae a dysgu.

Ymunodd y staff â chwarae'r plant a chlywsom lawer o chwerthin, megis pan wnaethant redeg ar ôl y swigod yn yr awyr agored, chwarae yn y tywod neu baentio.  Canodd y staff ganeuon gyda'r plant a darllen llyfrau iddynt yn ogystal â siarad â nhw am yr hyn roeddent yn ei wneud fel pan wnaethant rolio'r toes chwarae i wneud cacennau.  Gofynnodd y staff 'do you make cakes with mami at home?' Clywsom y staff yn annog y plant i adnabod siapau, lliwiau ac i gyfrif.   Anogodd y staff y plant i wneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain, megis golchi a sychu eu dwylo, sychu eu trwynau a chasglu eu cotiau.  Fodd bynnag, gwelsom y staff yn arllwys diodydd y plant, gweini eu byrbrydau a chlirio'r bwrdd ar ôl amser byrbryd.  Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod y plant yn gwneud hyn drostynt eu hunain fel arfer.  Roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm ac roeddent yn cyfathrebu'n llwyddiannus i ddiwallu anghenion y plant.  Gwelsom y staff yn gwirio tymheredd y plant pan roeddent yn teimlo'n boeth a chysylltu â'r rhieni pan roedd plentyn yn sâl.  Roedd yr holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ond yn achlysurol roeddent yn defnyddio Saesneg i sicrhau bod rhai plant y mae Saesneg yn famiaith iddynt, yn deall.  Roedd y staff yn adnabod y plant a'u dewisiadau yn dda.  Roedd gan bob plentyn weithiwr allweddol a chynllun chwarae unigol gyda thargedau dysgu a datblygu clir.  Roedd y gweithwyr allweddol yn cwblhau cofnodion ar dargedau datblygu'r plant ac yn diweddaru'r system 'si-so' electronig gyda lluniau a gwybodaeth i'r rhieni.  Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn datblygu'n dda iawn.

Mae'r staff yn dda yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad cyffredinol y plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd cynnes, magwrus ac ysgogol iawn. Caiff ei adolygu a'i ddatblygu'n barhaus i ddiwallu anghenion a diddordebau'r plant. Roedd amrywiaeth ardderchog o deganau, adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant i wella eu datblygiad cyffredinol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ystod o ardaloedd chwarae diddorol dan do ac yn yr awyr agored lle mae'r plant yn ffynnu.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân a bod unrhyw risgiau yn cael eu nodi a'u lleihau neu eu dileu.

Roedd mynedfa'r gwasanaeth yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod. Mae'r ymwelwyr yn cael mynediad drwy dderbynfa'r ysgol neu fynedfa'r gwasanaeth ei hun. Roedd y staff yn sicrhau bod y giatiau yn ddiogel a bod ffens o amgylch yr ardal. Cedwir cofnod o ymwelwyr yn y dderbynfa. Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau ac adolygu asesiadau risg cynhwysfawr ar gyfer pob ardal yn y safle, dan do ac yn yr awyr agored. Gwelsom y staff yn archwilio'r ardal chwarae yn yr awyr agored a'r cyfarpar cyn i'r plant fynd allan i chwarae. Roedd yr arweinwyr wedi cyflawni sgôr hylendid bwyd lefel pump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y dyfarniad uchaf. Roedd y cofnodion yn dangos profion blynyddol ar gyfer cyfarpar gwres a thrydanol a bod y staff yn cynnal ymarferion tân misol i gadw'r plant a'r ymwelwyr yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol iawn wrth sicrhau diogelwch yr amgylchedd.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn darparu safleoedd rhagorol sy'n ysgogol iawn ac mae'r cynllun yn hybu annibyniaeth y plant yn dda iawn.

Roedd yr ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored yn groesawgar iawn ac yn darparu amgylchedd ysgogol iawn ar gyfer chwarae, dysgu a datblygu. Roedd digon o ofod a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant, gan gynnwys ardaloedd chwarae amrywiol ar gyfer amser tawel, amser cylch, chwarae wrth y bwrdd, chwarae ar y llawr a chwarae blêr yn unol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Roedd y safle yn hybu annibyniaeth yn dda, er enghraifft gallai'r plant fynd i'r toiled yn rhydd ac yn annibynnol pan roedd angen. Roedd yr adnoddau wedi'u storio ar lefel isel fel y gallai'r plant gael gafael arnynt yn hawdd a gwelsom fod y staff yn newid yr adnoddau i gynnal diddordeb y plant. Gwelsom y plant yn dewis gweithgareddau ac yn symud yn rhydd o un gweithgaredd i'r llall. Yn ogystal â'r brif ystafell chwarae, roedd neuadd yr ysgol ar gael i'r plant ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau corfforol ac ardal y llyfrgell ar gyfer amser stori. Roedd ardal chwarae awyr agored wych, ac roedd yr arweinwyr wedi darparu nifer o deganau, cyfarpar ac ardaloedd arbrofol megis y pwll tywod ac ardaloedd adeiladu a phlannu. Roedd y plant yn cael cyfleoedd rhydd da iawn i archwilio amrywiaeth o gyfleoedd chwarae yn ddiogel a chael profiadau chwarae corfforol ac awyr iach. Dywedodd yr arweinwyr wrthym y gallai'r plant ymweld ag ardal coetir yr ysgol hefyd ar gyfer gweithgareddau ysgol y goedwig a'r

ardal gemau aml-ddefnydd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon amrywiol. Ni allai'r plant fynd i'r gegin.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas iawn i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae gan y gwasanaeth adnoddau a chyfarpar sy'n briodol i oedran a datblygiad y plant ac maent o ansawdd da.

Roedd cyflenwad eang o deganau a deunyddiau o ansawdd da ar gael i'r plant a oedd yn addas i'w hanghenion a'u diddordebau. Roedd digon o ddodrefn, cyfarpar a theganau ar gyfer yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored. Roedd ardal awyr agored wych lle roedd cyfleoedd i'r plant chwarae'n gorfforol, cael awyr iach, cael profiadau arbrofol ac roedd ystafell ddosbarth awyr agored newydd ar gyfer amser stori. Roedd yr holl ardaloedd, y cyfarpar, y dodrefn a'r teganau yn lân iawn ac mewn cyflwr da iawn. Gwelsom fod y staff yn sicrhau bod y plant yn myfyrio ar ddiwylliannau a hunaniaethau gwahanol ac yn eu dathlu. Er enghraifft, roedd gwisgoedd gwahanol yn yr ardal gwisgo i fyny, doliau, llyfrau a jig-sos yn cynrychioli hiliau a diwylliannau gwahanol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn dathlu gwyliau amrywiol, megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio iaith arwyddion yn ôl yr angen a'u bod yn dysgu am ddiwylliant ac iaith Portiwgal.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o deganau, adnoddau a deunyddiau o ansawdd da i gefnogi dysgu a datblygiad y plant.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn ymdrechu i gyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol a'r rheoliadau sy'n ofynnol. Mae gan yr arweinwyr bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith ac mae'r staff yn gyfarwydd â nhw. Mae system recriwtio dda ar waith ac mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda. Mae gan yr arweinwyr system hunanwerthuso effeithiol ar waith ac mae ganddynt bartneriaethau da iawn â'r rhieni, yr ysgol a'r asiantaethau, sy'n gwella llesiant y plant. Mae angen rhai gwelliannau yn y maes hwn.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r rheoliadau ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r gwaith o gadw cofnodion yn drefnus ar y cyfan. Mae angen rhai gwelliannau yn y maes hwn.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei redeg a'i drefnu'n dda ar y cyfan. Roedd gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben ar waith a oedd yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn dda. Fodd bynnag, nid oedd yn bodloni'r gofynion yn llawn. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn rhoi taflen wybodaeth ar wahân ychwanegol i'r rhieni yn cynnwys rhifau cyswllt. Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau. Fodd bynnag, roeddent yn dangos dyddiad o fis Ebrill a mis Mai 2017. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau ar 22 Tachwedd 2018 a'u hargraffu a'u llofnodi â llaw. Roedd cofnodion y plant megis contractau, ffurflenni gwybodaeth, caniatâd meddygol brys, caniatadau amrywiol a chofnodion damweiniau yn gynhwysfawr ac wedi'u cwblhau'n llawn. Roedd y systemau ar gyfer monitro datblygiad y plant yn effeithiol. Roedd y staff yn cwblhau cynlluniau datblygu, eu monitro a'u diweddaru pan roedd y plant yn cyflawni eu nodau a'u targedau. Roedd cofrestr o bresenoldeb y plant yn cael ei chwblhau ac roedd cofrestr staff ar waith. Fodd bynnag, dim ond un aelod o'r staff oedd wedi cwblhau'r gofrestr ac nid oedd unrhyw gofnodion o'r staff cymorth a oedd yn cyflenwi egwyliau na'r staff a oedd yn cael seibiant o'u dyletswyddau gofal. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gofnodi a storio gwybodaeth electronig yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn effeithiol ar y cyfan.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan yr arweinwyr adolygiad parhaus ar gyfer gwella, sy'n ystyried barn y plant, y rhieni, y staff a'r gweithwyr proffesiynol.

Gwelsom fod yr arweinwyr yn effeithiol wrth hunanwerthuso a nodi meysydd i'w gwella. Roedd gan y gwasanaeth system hunanwerthuso, a oedd yn cynnwys arolygon a blwch awgrymiadau ar gyfer y rhieni a'r plant ac roedd y staff yn cwblhau holiaduron. Roedd yr arweinwyr wrthi'n drafftio eu hadroddiad o ansawdd y gofal a gwnaethant gytuno i ddarparu copi wedi'i gwblhau i AGC. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi gwneud newidiadau o

ganlyniad i adborth o'r adroddiad blaenorol o ansawdd y gofal. Er enghraifft, roeddent bellach yn cynnig noswaith galw heibio fel y gallai'r rhieni drafod datblygiad eu plant, roeddent wedi creu ardal synhwyraidd a datblygu bwydlen byrbrydau newydd.

Mae'r arweinwyr yn effeithiol o ran y gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella, sydd o fudd i'r plant, y rhieni a'r staff.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth mewn ffordd drefnus ar y cyfan ac maent yn hybu datblygiad y staff.

Roedd gan yr arweinwyr system recriwtio gadarn. Roedd ffeiliau'r staff a samplwyd yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol. Fodd bynnag, nid oedd un ffeil yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau am nad oedd yn cynnwys prawf adnabod, llun na geirdaon. Gweithredodd yr arweinwyr ar unwaith i fynd i'r afael â'r broblem hon a gwnaethant ddarparu tystiolaeth o addasrwydd y staff. Roedd sesiynau goruchwylio ac arfarnu'r staff wedi cael eu cynnal a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod problemau a chwblhau hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad personol. Roedd y staff yn gymwys i'r lefelau sy'n ofynnol ac allan o'r wyth aelod o staff a gyflogir, roedd gan saith ohonynt dystysgrifau cymorth cyntaf dilys; roedd chwech wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac roedd gan chwech ohonynt dystysgrif hylendid bwyd. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod yr arweinwyr yn darparu hyfforddiant rheolaidd i'r staff yn ogystal â hyfforddiant arbenigol i ddiwallu anghenion plant unigol, megis hyfforddiant Awtistiaeth a'r Synhwyrau, 'Prevent', y Cyfnod Sylfaen, Epilepsi, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Elklan, hyfforddiant 'Tîm o Amgylch y Teulu', Wellcom a'r cwrs 'Incredible Beginnings'. Mae'r arweinwyr wedi ennill Gwobr 'ASD info WALES' am ymwybyddiaeth o anhwylderau ar y sbectrwm awtistig ac mae dau aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant SNAP Cymru 'Gallu ac Ymwybyddiaeth o Anghenion Addysgol Arbennig'. Roedd nifer y staff yn rhagori ar y gyfradd staff i blant yn ystod yr arolygiad.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff a'r adnoddau eraill yn llwyddiannus.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr a'r staff gydberthnasau da iawn â'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol, sydd o fudd i'r plant. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol.

Roedd yr arweinwyr yn rhoi gwybodaeth ar lafar ac ysgrifenedig i'r rhieni am ddatblygiad eu plentyn. Maent yn defnyddio'r system electronig 'si-so' i ddarparu lluniau a gwybodaeth am ddiwrnod eu plentyn. Clywsom y staff a'r rhieni yn rhannu gwybodaeth wrth gasglu a gollwng eu plant. Rhoddodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol iawn am y gofal mae eu plentyn yn ei gael a'r staff. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth a'r ffordd roedd eu plentyn wedi datblygu. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hoffi'r system 'si-so' yn fawr. Nid oedd ganddynt unrhyw broblemau i'w codi ond gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i wneud hynny petai angen gwneud hynny. Mae pwyslais cryf ar feithrin cydberthnasau â'r rhieni a'r gofalwyr, gan gynnal digwyddiadau pontio i rannu gwybodaeth a chysylltiadau â'r gwasanaeth sydd wedi bod yn rhedeg ers tair blynedd. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi mynd â'r plant ar daith i weld Sion Corn ac i weld sioe a'u bod wedi gwahodd y gwasanaeth tân, yr heddlu ac ymwelydd iechyd i'r gwasanaeth yn flaenorol. Roeddent hefyd yn gweithio'n agos iawn â'r ysgol ac asiantaethau amrywiol, megis therapyddion iaith a lleferydd i

gefnogi'r plant. Roedd yr arweinwyr wedi codi arian ar gyfer cyfarpar newydd drwy weithgareddau a digwyddiadau a noddir, megis teithiau cerdded Corrach a barbeciw.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau llwyddiannus.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

- nid oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n ymwneud â staffio am nad oedd y person â chyfrifoldeb yn weithiwr ychwanegol bob amser. **Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn bellach.**

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- Annog annibyniaeth plant ymhellach yn ystod amser byrbryd;
- ystyried addasu'r drefn newid cewynnau i sicrhau goruchwyliaeth dda bob amser;
- ystyried anghenion unigol y plant a'r trefniadau cysgu yn ystod amser cysgu;
- sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau mwyaf diweddar ar gael i'w harolygu.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 16 Ionawr 2019 am tua 5 awr. Gwnaethom gwblhau'r canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion;
- siarad â'r plant, rhai rhieni a'r staff;
- rhoi adborth manwl dros y ffôn i'r unigolyn cyfrifol a'r ddau berson â chyfrifoldeb ar 18 Ionawr 2019.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Emma-Wynne Rofe** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Leanne Griffiths**<br>**Kelly Davies** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 i 3 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener 8:00am i 3:30pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **16 Ionawr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **16 Ionawr 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy, lleoedd a ariennir.** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |